**COFNODION CYFARFOD CYNGOR SIR POWYS A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD AR 20 IONAWR 2016**

PRESENNOL
Cynghorydd Sir PJ Ashton (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir M C Alexander, D Bailey, R G Brown, J H Brunt, K W Curry, AW Davies, E R Davies, L R E Davies, M J B Davies, S C Davies, S Davies, M J Dorrance, D O Evans, V E Evans, W J Evans, L Fitzpatrick, R I George, C J Gibson-Watt, M R Harris, P Harris, S M Hayes, A Holloway, J C Holmes, G Hopkins, E A Jones, D C Jones, M J Jones, E M Jones, Eldrydd M Jones, G M Jones, J R Jones, W T Jones, F H Jump, H Lewis, MC Mackenzie, DJ Mayor, S McNicholas, P J Medlicott, D W Meredith, E T Morgan, G Morgan, J G Morris, W J T Powell, W D Powell, G D Price, D R Price, P C Pritchard, G W Ratcliffe, K M Roberts-Jones, J G Shearer, K S Silk, KF Tampin, D A Thomas, W B Thomas, A G Thomas, D G Thomas, R G Thomas, TG Turner, T J Van-Rees, G P Vaughan, D H Williams, S L Williams, J M Williams a G I S Williams

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC1- 2016 |
|---|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir G R Banks, G J Bowker, L V Corfield, D E Davies, D R Jones, P E Lewis, R H Mills ac E A York.

| 2. | COFNODION | CC2 – 2016 |
|---|---|---|

Awdurdodwyd y Cadeirydd i arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2015 fel cofnod cywir yn amodol ar y diwygiadau canlynol: cynnwys y Cynghorydd Sir KF Tampin yn y rhestr o aelodau oedd yn bresennol a dileu'r Cynghorydd MJ Jones o'r rhestr o aelodau oedd yn bresennol.

| 3. | DATGANIADAU DIDDORDEB | CC3 - 2016 |
|---|---|---|

Ni adroddwyd am unrhyw ddatganiadau diddordeb.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD | CC4 - 2016 |
|---|---|---|

Soniodd Cadeirydd y Cyngor am rai o'r gweithgareddau y bu'n eu gwneud ers y cyfarfod diwethaf. Fe gafodd y pleser o gynnal y seremoni gwobrwyon staff ym mis Rhagfyr a mynegodd ei longyfarchion i'r cyfan a gafodd eu henwebu. Cyflwynodd nifer o wobrwyon barcud arian hefyd gan gynnwys un i Lloyd Crawley o Benycae a enillodd fedalau aur ac arian gan gynrychioli Prydain Fawr mewn badminton yn y Gemau Olympaidd Arbennig yn Los Angeles.

Cyn dechrau'r cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn deiseb sy'n cynnwys dros 2,000 o lofnodion yn gofyn am gadw'r ganolfan gofal dydd yn Llanidloes ar agor. Byddai'n trosglwyddo'r ddeiseb i Arweinydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD | CC5 - 2016 |
|---|---|---|

Ers cyhoeddi'r setliad dros dro, dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi bod mewn cysylltiad gydag ACau y sir yn gofyn am eu cefnogaeth ar gyfer trefniant gwell i Bowys. Roedd y gwaith ar y gyllideb yn parhau a byddai'r Cabinet yn cwrdd ar y 18 Chwefror i argymell cyllideb i'r Cyngor ar 25 Chwefror. Soniodd yr Arweinydd hefyd am Ffair Aeaf CAFC lle'r oedd y Cyngor yn cynnal nifer o ddigwyddiadau.

| 6. | NODYN BRIFFIO'R PRIF WEITHREDWR | CC6 - 2016 |
|---|---|---|

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Ysgol Dafydd Llwyd, Y Drenewydd. Roedd y buddsoddiad £8.4m hwn wedi cael ei gefnogi gan gyfraniad o 50% tuag at gostau cyfalaf trwy raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd fod y Cyngor wedi derbyn £300,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru fel cyfraniad tuag at gostau sefydlu integreiddio a bod Julie Roweles wedi ymuno â'r Cyngor ar secondiad o 12 mis i helpu gwneud cynnydd gydag integreiddio. Mae Llwybrau Gofal Integredig i bobl hŷn wedi cael eu cyflwyno yn Ystradgynlais a byddent yn cael eu cyflwyno ym Machynlleth a Llanidloes. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd y byddai'r gwaith yn dechrau ar ffordd osgoi'r Drenewydd ym mis Chwefror ac y byddai'r gwaith ar y bont Ddyfi newydd yn dechrau'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Yn olaf, dywedodd y byddai'r Cyngor yn cefnogi digwyddiad a gynhelir gan Rwydwaith Seren i annog disgyblion sydd â chyrhaeddiad uchel i ymgeisio am brifysgolion Grŵp Russell gan gynnwys Rhydychen a Chaergrawnt. Byddai 80 o ddisgyblion Powys yn cymryd rhan yn y prosiect.

| 7. | TROSGLWYDDIADAU ARIANNOL SY'N GOFYN AM GYMERADWYAETH Y CYNGOR | CC7 - 2016 |
|---|---|---|

Mewn ymateb i gwestiwn am y trosglwyddiad ariannol ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai, dywedodd yr Aelod Portffolio Eiddo, Adeiladau a Thai fod gofyn cael eglurhad am y posibilrwydd o'i ddefnyddio i adeiladu tai cyngor ai peidio. Mewn ymateb i gwestiwn am y trosglwyddiad ariannol ar gyfer Canolfan Ddiwylliannol Aberhonddu, dywedodd ei fod wedi derbyn hysbysiad fod Bwrdd Gweithredol Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi cymeradwyo nawdd o £750k ar gyfer y cynllun.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol a nodwyd yn yr atodlen a ffeiliwyd gyda'r cofnodion a arwyddwyd.** | **Fel sy'n ofynnol yn unol â rheolau sefydlog ariannol.** |

| 8. | PENODIADAU AR BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL GAN GRWPIAU GWLEIDYDDOL A GYMERADWYWYD GAN Y SWYDDOG MONITRO | CC8 - 2016 |
|---|---|---|

Nododd y Cyngor fod y penodiadau canlynol wedi cael eu gwneud ar bwyllgorau gan grwpiau gwleidyddol ac wedi'u cymeradwyo gan y Swyddog Monitro dan bwerau dirprwyo cyffredinol a ganiatawyd gan y Cyngor.:

Penodwyd y Cynghorwyr Sir David Price a Gillian Thomas ar y Pwyllgor Archwilio gan Gynghrair Annibynnol Powys i lenwi swyddi gwag.
Penodwyd y Cynghorydd Garry Banks ar y Pwyllgor Craffu Lle gan Lafur yn hytrach na'r Cynghorydd Sir Matthew Dorrance.
Penodwyd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt ar y Pwyllgor Craffu Pobl gan y Democratiaid Rhyddfrydol i lenwi swydd wag.
Penodwyd y Cynghorydd Sir Graham Jones ar y Pwyllgor Craffu Lle yn hytrach na'r Cynghorydd Sir Gwilym Williams.

| 9. | CADEIRYDDION Y PWYLLGORAU CRAFFU | CC9 - 2016 |
|---|---|---|

Fe wnaeth y Cyngor ystyried adroddiad Cyfreithiwr y Cyngor a nodi mai cyfrifoldeb y Grŵp Ceidwadol oedd llenwi swydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Lle. Roedd y Grŵp Ceidwadol wedi enwebu'r Cynghorydd Sir Graham Jones ar gyfer y swydd.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Dyrannu swydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Lle i'r Grŵp Ceidwadol a phenodi'r Cynghorydd Sir Graham Jones i'r swydd honno.** | **Cydymffurfio â gofynion statudol (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) a Chyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â dyrannu a phenodi seddi a Chadeiryddion pwyllgorau.** |

| 10. | PENODI AELOD ANNIBYNNOL (LLEYG) AR Y PWYLLGOR SAFONAU | CC10 - 2016 |
|---|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad Cyfreithiwr y Cyngor ar benodi Aelod Annibynnol (Lleyg) ar y Pwyllgor Safonau ac argymhelliad Panel Penodi'r Pwyllgor Safonau y dylid penodi Mr Stephan Hays.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad |
|---|---|
| **Y dylid penodi Mr Stephan Hays fel Aelod Annibynnol (Lleyg) ar gyfer y Pwyllgor Safonau am gyfnod o 6 mlynedd o'r 26 Ionawr 2016.** | **Cydymffurfio â gofynion Aelodau Annibynnol (Lleyg) y Pwyllgor Safonau fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd).** |

Fe wnaeth y Cyngor gofnod o'i ddiolch i Mr Ralph Miller am ei flynyddoedd o wasanaeth ar y Pwyllgor Safonau fel Aelod Annibynnol (Lleyg).

| 11. | PWYLLGOR YMGYNGHOROL MORDWYO'R AFON GWY | CC11 - 2016 |
|---|---|---|

Derbyniodd y Cyngor lythyr gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn gofyn am benodi aelod i wasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Mordwyo'r Afon Gwy.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Y dylid penodi'r Cynghorydd Sir Kelvyn Curry ar Bwyllgor Ymgynghorol Mordwyo'r Afon** | **Llenwi swydd wag.** |

| | |
|---|---|
| **Gwy.** | |

| | | |
|---|---|---|
| **12.** | **BLAEN RAGLEN WAITH Y CYNGOR** | **CC12 – 2016** |

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'w blaen raglen waith ar gyfer 2016.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad |
|---|---|
| **Cymeradwyo blaen raglen waith y Cyngor ar gyfer 2016.** | **Gosod blaen raglen waith y Cyngor ar gyfer y flwyddyn.** |

| | | |
|---|---|---|
| **13.** | **RHYBUDD O GYNNIG – CYFRANOGIAD Y CYHOEDD YNG NGHYFARFODYDD Y CYNGOR** | **CC13 - 2016** |

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Gemma Bowker ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir John Morris:

**Mae Cyngor Sir Powys**

- yn credu y dylwn wneud mwy i annog trigolion Powys i gael dweud eu dweud mwy yn holl gyfarfodydd y cyngor

- yn meddwl fod cyfranogiad y cyhoedd yn cynnig ffordd lle y gall y rheini gyda safbwyntiau i'w mynegi wneud hynny mewn cyfarfodydd lle mae'r materion penodol yn cael eu trafod

- yn meddwl y byddai cyfranogiad y cyhoedd yn cael ei wella trwy gynnig fformat sydd wedi'i strwythuro ar ddechrau holl gyfarfodydd y cyngor a'i bwyllgorau er mwyn i aelodau'r cyhoedd annerch cynghorwyr

- yn nodi fod cyfran fawr o awdurdodau lleol Cymru eisoes yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd

**Mae'r cyngor hwn yn penderfynu**

1. galluogi'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i edrych ar ffyrdd y mae cyfranogiad y cyhoedd yn gweithredu'n llwyddiannus ar draws Cymru.

2. archwilio dewisiadau i gyflwyno cyfranogiad y cyhoedd a gwneud cynigion sydd wedi'u hanelu tuag at gyflwyno system i ganiatáu aelodau'r cyhoedd i gyfrannu tuag at gyfarfodydd y cyngor.

Gofynnodd mwy na deg aelod oedd yn bresennol am bleidlais sydd wedi'i chofnodi.

| | |
|---|---|
| M.C. ALEXANDER | O BLAID |
| P.J. ASHTON | O BLAID |
| D. BAILEY | YN ERBYN |
| G.R. BANKS | YMDDIHEURIAD |
| G.C. BOWKER | YMDDIHEURIAD |
| R.G. BROWN | O BLAID |
| J.H. BRUNT | YN ERBYN |
| L.V. CORFIELD | YMDDIHEURIAD |
| K.W. CURRY | O BLAID |
| A.W. DAVIES | O BLAID |
| D.E. DAVIES | YMDDIHEURIAD |
| E.R. DAVIES | YN ERBYN |
| L.R.E. DAVIES | YMATAL RHAG PLEIDLEISIO |
| M.J.B. DAVIES | O BLAID |
| S.C. DAVIES | O BLAID |
| S. DAVIES | YN ERBYN |
| M.J. DORRANCE | O BLAID |
| D.O. EVANS | YMATAL RHAG PLEIDLEISIO |
| V.E. EVANS | YMATAL RHAG PLEIDLEISIO |
| W.J. EVANS | YN ERBYN |
| W.A. FITZPATRICK | YMATAL RHAG PLEIDLEISIO |
| R.I. GEORGE | O BLAID |
| J. GIBSON-WATT | O BLAID |
| M.R. HARRIS | YN ERBYN |
| P. HARRIS | YMATAL RHAG PLEIDLEISIO |
| S.M. HAYES | YN ERBYN |
| A. HOLLOWAY | YMATAL RHAG PLEIDLEISIO |
| J.C. HOLMES | YN ERBYN |
| G.G. HOPKINS | YN ERBYN |
| D.C. JONES | O BLAID |
| D.R. JONES | YMDDIHEURIAD |
| E.A. JONES | O BLAID |
| ELDRYDD M. JONES | YN ERBYN |
| E.M. JONES | YN ERBYN |
| G.M. JONES | O BLAID |
| J. JONES | YN ERBYN |
| M.J. JONES | YMATAL RHAG PLEIDLEISIO |
| W.T. JONES | YN ERBYN |
| F.H. JUMP | O BLAID |
| H. LEWIS | YN ERBYN |
| P.E. LEWIS | YMDDIHEURIAD |
| M. MACKENZIE | O BLAID |
| D.J. MAYOR | O BLAID |
| S. MCNICHOLAS | O BLAID |
| P.J. MEDLICOTT | YN ERBYN |
| D.W. MEREDITH | O BLAID |
| R.H. MILLS | YMDDIHEURIAD |
| E.T. MORGAN | O BLAID |
| G. MORGAN | O BLAID |
| J.G. MORRIS | O BLAID |
| W.J.T. POWELL | YMATAL RHAG PLEIDLEISIO |

| | |
|---|---|
| W.D. POWELL | O BLAID |
| D.R. PRICE | YN ERBYN |
| G.D. PRICE | O BLAID |
| P.C. PRITCHARD | YN ERBYN |
| G.W. RATCLIFFE | YMATAL RHAG PLEIDLEISIO |
| K.M. ROBERTS-JONES | YMATAL RHAG PLEIDLEISIO |
| J.G. SHEARER | YN ERBYN |
| K.S. SILK | O BLAID |
| K.F. TAMPIN | YN ERBYN |
| A.G. THOMAS | YN ERBYN |
| D.A. THOMAS | O BLAID |
| D.G. THOMAS | YN ERBYN |
| R.G. THOMAS | O BLAID |
| W.B. THOMAS | O BLAID |
| T.G. TURNER | O BLAID |
| T.J. VAN REES | YN ERBYN |
| G.P. VAUGHAN | YN ERBYN |
| G.I.S. WILLIAMS | YN ERBYN |
| D.H. WILLIAMS | O BLAID |
| J.M. WILLIAMS | O BLAID |
| S.L. WILLIAMS | O BLAID |
| A.YORK | YMDDIHEURIAD |

Cafodd y cynnig ei basio gan 31 pleidlais i 24 gyda 10 cynghorydd yn ymatal rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD**

1. **galluogi'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i edrych ar ffyrdd y mae cyfranogiad y cyhoedd yn gweithredu'n llwyddiannus ar draws Cymru.**

2. **Archwilio dewisiadau i gyflwyno cyfrangiad y cyhoedd a gwneud cynigion gyda'r nod o gyflwyno system i ganiatáu aelodau'r cyhoedd i gyfrannu yng nghyfarfodydd y cyngor.**

| | | |
|---|---|---|
| **14.** | **CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD** | **CC14 - 2016** |

**14.1 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio sydd â chyfrifoldeb dros Wasanaethau Cymdeithasol i Blant oddi wrth y Cynghorydd Sir Huw Williams**

**Faint o weithwyr Cymdeithasol penodedig sydd wedi'u cymhwyso'n llwyr a gyflogir o fewn Gwasanaethau Plant ym Mhowys a lle mae nhw wedi'u lleoli? Beth yw eu llwyth 'gwaith achos' presennol ar gyfartaledd a sut mae hyn yn cymharu gydag awdurdodau eraill a chanllawiau cenedlaethol?**

*Ar hyn o bryd, mae Gwasanaethau Plant yn gweithredu 4 tîm gwaith cymdeithasol sy'n gyfrifol am drafod y broses gyfeirio ac asesiadau o ddydd i ddydd, a rheoli llwythi achosion presennol o ran llwythi achosion Plant mewn Angen, Amddiffyn Plant a Phlant mewn Gofal. Mae gan weithwyr cymdeithasol lwythi achosion generig ac y byddai'r cyfuniad o'r llwythi achosion hyn yn ddibynnol ar eu profiad a chymhlethdod yr achosion.*

*Mae'r tabl canlynol yn dangos manylion y gweithwyr cymdeithasol yn y 4 tîm gofal plant gweithredol yn unol â'r strwythur presennol ar ddechrau mis Tachwedd 2015. Dylid nodi na fyddai Rheolwr Tîm yn dal achosion, ac y byddai'r Prif Weithiwr Cymdeithasol yn dal llwyth achosion llai oherwydd cyfrifoldebau eraill.*

| | *Rheolwr Tîm* | *Prif Weithiwr Cymdeithasol* | *Uwch Ymarferydd* | *Gweithiwr Cymdeithasol* |
|---|---|---|---|---|
| *Tîm Plant Aberhonddu ac Ystradgynlais* | *1* | *1* | *2* | *7* |
| *Tîm Plant Maesyfed* | *1* | *1* | *2* | *5* |
| *Tîm Plant Y Drenewydd* | *1* | *1* | *2* | *5* |
| *Tîm Plant Y Trallwng* | *1* | *1* | *2* | *5* |
| *Cyfanswm y gweithwyr* | *4* | *4* | *8* | *22* |
| *Cyfanswm nifer yr achosion agored 12.11.2015* | | *561 o achosion agored* | | |
| *Llwyth achosion ar gyfartaledd* | | *16.5 achos y gweithiwr* | | |

*Mae'r timoedd canlynol ar draws y sir sydd â chanolfannau yng ngogledd a de'r Sir wedi cael eu heithrio o'r cyfrifiadau llwyth achosion cyfartalog. O ran y Tîm Plant ag Anableddau, a'r Tîm Ôl-16, mae gweithwyr cymdeithasol cymwys a heb gymhwyso yn dal achosion (gallwn gyflwyno manylion am hyn ar gais). O ran y Timoedd Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD)/Timoedd Dechrau o'r Newydd gyda'n Gilydd (TANS), maent yn dimoedd ymyrraeth mewn argyfwng ac yn cynnig cymorth dwys yn y tymor byr. Nid oes gan weithwyr yn y timoedd hyn gyfrifoldeb dros achosion gan fod yr achosion hyn yn parhau gyda'r gweithiwr cymdeithasol dynodedig. Yn olaf, mae'r Timoedd Maethu a'r Timoedd Mabwysiadu yn cynnal asesiadau ond nid ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r plant a'r bobl ifanc sy'n cael mynediad at y gwasanaethau fodd bynnag. Unwaith eto, y gweithiwr cymdeithasol dynodedig sydd â'r cyfrifoldeb dros achosion plant a phobl ifanc.*

| | *Rheolwr Tîm* | *Prif Weithiwr Cymdeithasol* | *Uwch Ymarferydd* | *Gweithiwr Cymdeithasol* |
|---|---|---|---|---|
| *Plant ag Anableddau* | *1* | *1* | *2* | *3.5* |
| *Achosion Agored ar 12.11.15* | | *169* | | |
| *16 a Hŷn* | *1* | *1* | *2* | *3* |
| *Achosion Agored ar 12.11.15* | | *124* | | |
| *TICD/TANS* | *1* | *1* | | *6* |
| *Tîm Maethu* | *1* | *1* | *2* | *6* |
| *Mabwysiadu* | *1* | | | *5.1* |
| *Cyfanswm* | *5* | *4* | *6* | *23.6* |

*Nid yw Cynulliad Cymru yn cyhoeddi unrhyw ffigyrau cenedlaethol ar lwythi achosion cyfartalog felly nid oes cymariaethau uniongyrchol ar gael gydag Awdurdodau eraill Cymru. Wedi dweud hynny, mae nifer o adroddiadau'n cael eu llunio yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n ymdrechu i ateb y cwestiwn hwn.*

*Yn ystod 2012, cynhaliwyd arolwg gan Ofal Cymunedol oedd yn cynnwys 925 o weithwyr cymdeithasol led led y DG. Awgrymodd yr ymchwil hwn mai 25 achos*

*oedd y llwyth achosion cyfartalog ar draws y DG i weithiwr cymdeithasol Gofal Plant.*

*Yn fwy diweddar, mae'r Adran dros Addysg wedi llunio adroddiad o'r enw "Children's Social Workforce during year ending 30 September 2014". Awgrymodd yr adroddiad hwn fod gweithiwr llawn amser yn dal 16 o achosion plant mewn angen.*

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Williams am y cynnig i dorri 20% oddi ar y gyllideb Gwasanaethau Plant, sy'n cyfateb i 7 swydd gweithiwr cymdeithasol, esboniodd yr Aelod Portffolio y byddai'r gostyngiad o 20% ar gyfer y gwasanaeth yn gyffredinol ac nid y gyllideb staff yn unig felly nid oedd hyn yn golygu gwaredu â 7 swydd gweithiwr cymdeithasol. Roedd arolwg ar fynd ar y Gwasanaethau Plant gyda'r dasg o weithredu cynilion cyllidebol tra'n cadw gwasanaeth diogel. Bydd yr Aelod Portffolio yn gadael i aelodau gael manylion y cynigion cyllidebol pan fyddant ar gael.

**14.2 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Cyllid oddi wrth y Cynghorydd Sir Bob Mills**

**Mae'n bwysig iawn ein bod yn cadw treth y cyngor hyd at leiafswm felly beth am symud y staff priodol i'r Rhanbarthau a chael gwared ar Neuadd y Sir?**

*Mae cadw Treth y Cyngor mor isel ag sy'n bosibl i'n trigolion yn rhywbeth y byddem ni oll fel Cynghorwyr yn hoffi ei gyflawni. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf fodd bynnag, mae cyflawni lefel isel o Dreth y Cyngor wedi profi i fod yn amhosibl oherwydd y setliadau ariannol gwael iawn a dderbyniodd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru. Y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn nesaf yw ein bod wedi derbyn y setliad isaf yng Nghymru gyda gostyngiad o 4.1% yn ein Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ar gyfer 2016/17, sy'n cyfateb i £7.147 miliwn. Yn ychwanegol at hyn, mae gan y Cyngor oddeutu £5 miliwn o bwysau tyfiant na ellir ei osgoi (e.e. Chwyddiant cyflogau, cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant cenedlaethol y cyflogwr, cynnydd mewn cyfraniadau i'r gronfa bensiwn) sydd gyda'i gilydd yn golygu y bydd angen cynilion o tua £13 miliwn. Bydd gofyn canfod arbedion sylweddol pellach am o leiaf y tair blynedd ganlynol.*

*Mae'r Cabinet wedi bod yn gweithio ar gynllun cyllidebol 3 blynedd ers mis Mehefin 2015, ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol, ond mae'r holl gyfrifiadau wedi cael eu gwneud ar ragdybiaeth y bydd cynnydd o 3.75% yn Nhreth y Cyngor, a gyda'r setliad yr ydym wedi'i dderbyn, mae'n edrych yn eithriadol o annhebygol y bydd hi'n bosibl cyflwyno cyllideb gytbwys yn gyfreithiol ar gyfer 2016/17 heb ychydig o ddefnydd o gronfeydd wrth gefn. Petai'r Cyngor yn gosod cynnydd isel, o ddyweder, 1% yn Nhreth y Cyngor, byddai hyn yn golygu diffyg o £1.550 miliwn mewn ariannu incwm, a byddai'n rhaid canfod y diffyg hwn naill ai o doriadau pellach mewn gwasanaeth neu trwy wneud defnydd mawr iawn o gronfeydd wrth gefn. Y broblem wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yw mai dim ond unwaith y gallwch eu gwario, ond bydd y diffyg mewn nawdd a amlinellwyd uchod yn cael ei ailadrodd pob blwyddyn fel y byddwn yn symud ymlaen. Nid oes unrhyw ddewisiadau hawdd yn y sefyllfa y mae ein Cyngor yn ei wynebu.*
*O ran y mater a godwyd am Neuadd y Sir, mae'r Cabinet wedi gosod y Cyngor yn glir ar y llwybr o adolygu'r portffolio eiddo cyfan, ac nid yw swyddfeydd y Cyngor led led y Sir wedi'u heithrio o'r broses hon. Gyda'r newidiadau a*

*gynllunnir i gyflwyno gwasanaeth, mae angen i'r Cyngor werthuso pa le o fewn swyddfeydd fydd ei angen ar gyfer y dyfodol ac ad-drefnu yn unol â hynny. Efallai y daw amser pan na fydd angen Neuadd y Sir, ond nid yw'r adeg honno yn bendant wedi cyrraedd eto. Efallai y gwelwn mai Neuadd y Sir, mewn gwirionedd, fydd un o'r adeiladau anoddaf i waredu ag ef ym Mhowys, ac y bydd angen ateb go wahanol o bosibl.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

**14.3 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Eiddo, Adeiladau a Thai oddi wrth y Cynghorydd Sir Gwilym Williams**

**Allwch chi ddweud wrthyf am faint o dai'r Cyngor Sir, a fyddai'n cynnwys fflatiau a phob eiddo preswyl, sydd heb eu meddiannu ar hyn o bryd a faint o'r rhain sydd heb eu meddiannu am fwy na chwe mis?**

*Fel ar y 4 Ionawr 2015, roedd 106 o dai cyngor gwag ym Mhowys, a reolir gan y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). O'r rhain, roedd 24 wedi bod yn wag am fwy na 6 mis.*

*Mae'r CRT yn rheoli 5,397 o eiddo felly mae nifer yr eiddo gwag yn cynrychioli 1.96% o'r stoc dai, ac mae nifer yr eiddo sy'n wag am fwy na 6 mis yn cynrychioli 0.44% o'r stoc dai.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

**14.4 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Adfywio a Chynllunio a'r Aelod Portffolio Eiddo, Adeiladau a Thai oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

**Ym mis Tachwedd 2015, dywedodd yr Aelod Cabinet wrth Gynghorwyr Sir Aberhonddu fod oedi gyda'r ganolfan ddiwylliannol a gynlluniwyd yn rhannol oherwydd diffyg ariannol.**

**A wnaiff yr Aelod Cabinet gyflwyno datganiad sefyllfa diweddar a manylion y diffyg ariannol i'r Cyngor, a sut y bydd y Cyngor yn cynllunio cau'r bwlch ariannu hwn fel y gall y prosiect adfywio fynd yn ei flaen?**

*Mae Canolfan Ddiwylliannol Aberhonddu yn brosiect blaenllaw i'r Cyngor Sir ac yn rhan o gyfle adfywio o bwys i Sir Frycheiniog. Mae'r prosiect wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl i'w gyflwyno, yn bennaf oherwydd y broses Nawdd Grant, gofynion Cynllunio a Threftadaeth Adeiledig a sicrhau fforddiadwyedd cyn tendro'r gwaith i'r farchnad trwy ail-ddylunio ond erbyn hyn mae ar fin dod yn realiti.*

*Gyda chynnydd o tua 6.5% ar gyfartaledd y flwyddyn mewn costau adeiladu o fewn y diwydiant ers cyflwyno'r cais Cronfa Treftadaeth y Loteri (Ebrill 2013), mae pryder na fydd y gyllideb a neilltuwyd yn ddigon. Mae hyn, fodd bynnag, yn ddibynnol ar sut mae'r farchnad yn ymateb i'r cyfle a dendrwyd yn dilyn ymarferiad helaeth i ostwng costau a'r dilyniant o ran gwaith dylunio manwl.*

*Yn ychwanegol at yr ymarferiad gostwng costau, mae pob ymdrech yn cael ei wneud i gau'r bwlch ariannu gan gynnwys sicrhau £300,000 o nawdd ychwanegol gan bartneriaid lleol, Ymddiriedolaethau ac unigolion, ynghyd â*

*chyflwyno cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri (CTyL) am gynnydd o £373,457 mewn grant. Mae'r gefnogaeth gan bartneriaethau lleol wedi bod yn allweddol wrth ddenu nawdd ychwanegol sylweddol gan sefydliadau megis Cronfa Treftadaeth y Loteri ac rydym yn optimistaidd y bydd y cynllun yn fforddiadwy heb roi pwysau gormodol ar adnoddau'r Cyngor.*

*Yn amodol ar ddadansoddiad costau llawn o ymateb y farchnad ynghyd â chefnogaeth gan bartneriaid ariannol, bydd y Cabinet yn ystyried sut i ariannu'r bwlch os yw'r costau yn parhau'n fwy na'r gyllideb a ddyrannwyd. Mae'r Cabinet yn ymwybodol o bwysigrwydd y prosiect hwn i Sir Frycheiniog a'r ymdrech, adnoddau a'r gefnogaeth gan bartneriaethau sydd wedi ei alluogi i gyrraedd y cam hwn.*

Wrth ateb cwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance am ba gynlluniau sydd ar waith petai'r gefnogaeth ariannol gan CTyL ddim yn cael ei wireddu, dywedodd yr Aelod Portffolio fod nawdd ar gael i'r prosiect fynd yn ei flaen. Petai'r nawdd hwn ddim ar gael, byddai'n rhaid chwilio am nawdd cyfalaf arall.

**14.5 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Addysg oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

**A yw'r Cabinet yn meddwl ei bod hi'n deg i Gynorthwywyr Cefnogi Dysgu mewn ysgolion ariannu tâl cofrestru o £15 i'w galluogi i wneud eu swyddi?**

*Ymatebodd y Cyngor, yn debyg i fwyafrif y cynghorau eraill yng Nghymru, i ymgynghoriad Gweithlu Addysg y Cyngor ar y cynnig hwn trwy ei gwneud hi'n glir nad oedd yn cefnogi ffioedd cofrestru i Gynorthwywyr Cefnogi Dysgu a'r baich ariannol ychwanegol y byddai'n ei gyflwyno, boed i'r Cyngor neu i'r Cynorthwywyr Cefnogi Dysgu eu hunain. Mae'r Cabinet eto i wneud penderfyniad ffurfiol ar y mater hwn ond mae polisi'r Cyngor ar dalu ffioedd proffesiynol a chofrestru yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i sicrhau fod cydraddoldeb yn y ddarpariaeth i'r holl staff pa bynnag benderfyniad a wneir*

Wrth ateb cwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance, dywedodd yr Aelod Portffolio nad yw'r Cabinet wedi ystyried y mater eto.

**14.6 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Gofal Cymdeithasol i Oedolion oddi wrth y Cynghorydd Sir Graham Jones**

**Wrth wynebu pryderon dyfnion gan eich etholwyr, a yw Cyngor Sir Powys yn barod i ailfeddwl ei flaenoriaethau ariannu er mwyn diogelu gofal dydd, a'r canolfannau dydd hanfodol, ar gyfer ei henoed diamddiffyn, gan ystyried y gofal proffesiynol a ddarperir ar hyn o bryd gan Ganolfan Ddydd Maes-y-Wennol, Llanidloes, na ellid, er enghraifft, ei sicrhau gan y sector gwirfoddol? Rwy'n teimlo fel awdurdod fod rhaid i ni wneud ein gorau glas i ofalu am ein trigolion hyn, felly pa fesurau positif eraill ydych chi'n eu hystyried i helpu gyda'r sefyllfa hon?**

*Bydd Cynghorwyr yn cofio yn ystod y drafodaeth ar gyllideb 2014/15 fod y Cyngor wedi penderfynu 'ailgyflunio gweithgareddau yn ystod y dydd i bobl mewn oed, tynnu'n ôl o gyflwyno yn uniongyrchol gan y Cyngor a buddsoddi mewn modelau newydd o ofal'.*

*Ar ôl hynny, mae pwysau ariannol wedi cynyddu yn sylweddol ac mae'r Cabinet a'r Cyngor wedi mynegi disgwyliad clir y dylai Gofal Cymdeithasol i Oedolion wynebu ei ran ef mewn gostyngiadau ariannol, gan atgyfnerthu'r pwysau i ystyried dulliau eraill o gynnig gwasanaethau dydd i bobl mewn oed,. Nid yw'r model a ddilynir hyd yn hyn o gyflwyno gofal dydd yn uniongyrchol gan y cyngor o adeiladau'r cyngor, yn fforddiadwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael.*

*Yn y cyd-destun ehangach, mae modelau darpariaeth yn newid yn genedlaethol, gyda thrafodaeth yn cael ei chynnal mewn nifer o fforymau am y ffordd orau o ddiwallu anghenion pobl mewn oed a'r ddarpariaeth yn symud ymaith fwyfwy o ofal dydd mewn canolfan draddodiadol sefydlog. Bydd angen i wasanaethau yn y dyfodol drafod gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol.a Llesiant.*

*Ar 20 Hydref, cytunodd y Cabinet i ymgynghoriad manwl ar wasanaethau dydd i bobl mewn oed, wedi'i ragflaenu a'i siapio gan drafodaeth 'gwrando a dysgu' gyda rhanddeiliaid. Yn dilyn casgliadau'r ymgynghoriad a'i werthusiad, bydd papur yn cael ei roi gerbron y Cabinet gydag opsiynau i wneud penderfyniad arnynt.*

*Rwy'n gwybod fod yr holl aelodau yn rhannu eich pryderon y dylai darpariaeth ddydd i bobl mewn oed ym Mhowys ddiwallu anghenion sydd wedi'u dynodi a helpu cadw trigolion yn weithgar ac yn annibynnol. Her yr ymgynghoriad yw canfod a gwerthuso dewisiadau gwahanol i ddatblygu gwasanaeth sy'n diwallu'r gostyngiad mewn cyllideb, sy'n darparu ar gyfer cynulleidfa ehangach ac yn cyflawni gofynion dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd. Nid oes model sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd, a bydd Cynghorwyr yn gwerthfawrogi petawn yn rhoi sicrwydd neu ymrwymiad am unrhyw ran o'r ddarpariaeth gwasanaeth presennol y byddai hyn yn amharu ar effeithiolrwydd arolygon a gwaith ymgynghori.*

*Yn ystod y broses i osod y gyllideb, rhaid i mi atgoffa Cynghorwyr mai'r penderfyniad a wnaed ym mis Chwefror 2013 oedd y byddai'r gyllideb i Ganolfannau Dydd yn cael ei gostwng yn sylweddol. Mae'r gostyngiadau cyllidebol hyn yn lleihau'r nawdd sydd ar gael o tua £4,000 y client i tua £800 o 2018.*

Yn ei gwestiwn atodol, gofynnodd y Cynghorydd Jones pa gynlluniau oedd ar gael i ddiwallu cynnydd mewn galw am lety preswyl petai'r canolfannau dydd i gau. Esboniodd yr Aelod Portffolio fod y Cabinet ymhell o wneud y penderfyniad ar hyn a bod ymarferiad gwrando a dysgu ar fynd, ac wedi hyn y byddai ymgynghoriad ffurfiol. Fel rhan o'r ymarferiad gwrando a dysgu, cafodd yr Aelodau eu gwahodd i seminar ar brynhawn y 29 Ionawr ac fe wnaeth yr Aelod Portffolio annog pawb i fynychu.

**14.7 Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd oddi wrth y Cynghorydd Sir Gemma Bowker**

**O ganlyniad i gynnydd sylweddol mewn ffioedd ar gyfer gwasanaeth profedigaeth i gyfraddau adfer llawn, a all yr aelod portffolio roi sicrwydd fod y gwasanaeth profedigaeth yn cael ei redeg cystal ac mor effeithiol ag sy'n bosibl ac yn cynnig lefelau uchel o ofal a gwerth am arian i'r sawl sy'n gorfod gwneud y taliadau ar adeg anodd?**

*Yn 2015, cynhaliwyd arolwg o ffioedd y gwasanaeth profedigaeth. Daeth yr arolwg i'r casgliad nad oedd y ffioedd presennol yn darparu ar gyfer cost y gwasanaeth. Ymhellach at hyn, gwelwyd ein bod yn y chwartel isaf pan gawsom ein cymharu ag awdurdodau eraill Cymru. Er eu bod yn sylweddol, ni fydd y ffioedd uwch a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2016 yn golygu fod y gwasanaeth yn adfer costau yn llwyr, ond bydd yn arwain at wneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni hyn yn y dyfodol.*
*Bydd y gwasanaeth presennol yn parhau i gynnig gwasanaeth effeithiol ond ystyriol i deuluoedd mewn profedigaeth yn ystod eu hamser anodd.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

**14.8 Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd oddi wrth y Cynghorydd Sir Graham Jones**

**Nawr y bydd taliadau claddu uwch yn cael eu codi gan Gyngor Sir Powys mewn perthynas â mynwentydd, mae pryderon na fydd rhai teuluoedd yn gallu fforddio'r taliadau ychwanegol hyn.**
**Petai'r taliadau eithriadol o uchel hyn yn cael eu gweithredu, a yw'r Cyngor wedi ystyried y gallai hyn arwain at broblemau amgylcheddol?**
**Pa fesurau y mae'r Cyngor yn eu cynnig, i fynd i'r afael â hyn?**

*Ceir cydnabyddiaeth fod y cynnydd mewn ffioedd claddu yn sylweddol. Fodd bynnag, maent yn angenrheidiol er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd arwyddocaol tuag at adfer costau yn llawn yn y dyfodol.*

*Cydnabyddir y gall rhai teuluoedd gael trafferth i fforddio claddiad o ystyried y taliadau ychwanegol. Rhaid ystyried y ffaith yma wrth ystyried diwygio'r ffioedd newydd a dyma pam na dderbyniodd y Cyngor y cynnig o adfer y gost lawn ar hyn o bryd.*

Wrth ateb cwestiwn atodol y Cynghorydd Jones am angladdau gwasanaeth cyhoeddus, esboniodd yr Aelod Portffolio mai dim ond 72% o'r gost yr oedd y gwasanaeth yn ei adfer. Ers 2012, dywedodd bod gostyngiad wedi bod yn nifer yr angladdau gwasanaeth cyhoeddus.

**14.9 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Addysg oddi wrth y Cynghorydd Sir David Meredith**

**O ystyried arwyddocâd yr effaith a gaiff y nifer sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim ar y Teulu o Ysgolion lle lleolir yr ysgol, pa gamau gweithredu y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd ochr yn ochr ag ERW i gyflwyno deunydd hyrwyddo gwell i ysgolion i'w hanfon at rieni er mwyn eu hannog i**

**ymgeisio? Ymhellach at hyn, pryd mae'r Awdurdod yn debygol o gyflwyno System Di-arian a fydd yn osgoi unrhyw embaras i ddisgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim?**

*Mae'r awdurdod wedi cyflwyno llythyron i ysgolion i'w hanfon at rieni am fanteision y Plentyn, Rhiant, yr Ysgol a'r Awdurdod Lleol yn derbyn prydau ysgol am ddim. Tîm incwm a dyfarniadau'r cyngor sy'n cynnal y gwaith o wobrwyo'r hawl i brydau ysgol am ddim gan asesu ar gyfer budd-daliadau eraill megis Budd-dal Tai a gostyngiad yn Nhreth y Cyngor ac ati. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal archwiliad llawn ar deuluoedd sydd â hawl yn 2-3 wythnos cyntaf mis Ionawr i sicrhau fod yr holl blant sydd â hawl yn caniatâd i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer dychwelyd data PLASC.*

*Disgwylir dechrau cyflwyno'r system di-arian ym mis Chwefror.*

Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Meredith ar yr hyn mae'r awdurdod yn ei wneud i ychwanegu at y gwaith cyhoeddusrwydd a gynhelir gan Erw i wella'r nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim, dywedodd yr Aelod Portffolio y byddai'n rhoi'r manylion i'r aelod.

**14.10 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Addysg oddi wrth y Cynghorydd Sir David Meredith**

**Pryd mae'r Awdurdod yn mynd i wneud y penderfyniad ar Addysg cyfrwng Cymraeg yn ne'r Sir, ac os na wneir hyn yn y dyfodol, pryd y mae'r Awdurdod yn bwriadu rhoi gwybod i rieni, yn enwedig y rheini sydd â phlant ym Mlwyddyn 6, am le y mae eu plant yn mynd i dderbyn eu Haddysg Cyfrwng Cymraeg gydag effaith o fis Medi, 2016?**

*Mae dyfodol addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn ne a chanol Powys yn cael ei ystyried fel rhan o'r Arolwg parhaus Ysgolion Uwchradd – sy'n cynnwys Ysgolion Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod, Aberhonddu a Gwernyfed. Rhagwelir y bydd yr arolwg wedi'i gwblhau yn fuan. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn ysgrifennu at rieni i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg cynradd ac uwchradd o fewn yr wythnos nesaf am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg benodol fydd ar gael ym mis Medi 2016.*

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Meredith am pryd y byddai penderfyniad yn cael ei wneud fel y gallai cyrff llywodraethu gynllunio cyn y 1 Medi, cadarnhaodd yr Aelod Portffolio y byddai'r Cabinet yn dod i benderfyniad yn fuan.

**Cynghorydd Sir P J Ashton (Cadeirydd)**